**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Abernant**
**Neuadd Talog, Nos Iau, 16 o Fai 2024**

**Yn bresennol:** Mr Ian Williams, Mr Chris Bish, Mr Rhun Llwyd, Mr Robin Williams, Mrs Gay Morgan Cynghorydd Mrs Jean Lewis

**1. Sylwadau'r Cadeirydd:** Mi wnaeth y cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Pawb yn bresennol

**3. Cadarnhau cofnodion mis Mawrth :**
Cynnig: Mr Rhun Llwyd
Eilio: Mr Chris Bish

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**
(a) Nid yw'r Cyngor wedi ail osod arwyddion yn Pwlldyfarch ac Afallon. Clerc i ofyn i'r Cyngor eto am weithrediad ac i e-bostio Cynghorydd Jean Lewis gyda'r manylion er mwyn i'r cyngor ddelio gyda mor fuan â phosib
(b) Dangoswyd drafft o'r safle we newydd i'r Cynghorwyr. Angen gwneud mân addasiadau i'r cynnwys. Gofynnwyd gan y cynghorwyr am adran ar gyfer grwpiau a digwyddiadau. Mae'r datblygwr we wedi gofyn am fwy o ddelweddau ar gyfer y safle we.
(c) IW i edrych am rodd ar gyfer cynghorydd sydd wedi gorffen gyda'r Cyngor
(ch) Nodwyd gan y Clerc fod angen diweddaru'r gliniadur. Clerc i ddod a'r gliniadur i'r cyfarfod nesaf

**5. Ysgol Abernant**
Doedd dim diweddariad I'w gyflwyno ynghlyn a datblygu ardal chwarae ar dir Ysgol Abernant.

**6. Swydd Clerc**
Clerc i lanlwytho copi o'r disgrifiad swydd i wefan Cyngor Cymuned Abernant ac i ddanfon copi ymlaen i weinyddwr dudalen 'facebook' pentref Talog

**7. Gohebiaeth**
Fe drafodwyd nifer o ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Clerc

**8. I'w drafod**
(a) Mae bwthyn mewn pentref cyfagos yn cael ei adnewyddu. Does dim cofnod o gais cynllunio wedi dod gan y Cyngor Cymuned
(b) Arwynebedd hewl ger Twmpath, Llysgarreg Talog angen ei drwsio
(c) Clerc i ail gysylltu gyda PCSO yn orsaf heddlu Sanclêr ynghylch gweithredu cynllun rheoli cyflymder
(ch) Tipio sbwriel anghyfreithlon ger Cilwendeg
(d) Teiars a gatiau fferm wedi cael eu dympio ger pont Abernant

**Unrhyw faterion arall**
Dim materion arall

**9. Taliadau**
Cyflog Clerc – 2 taliad cyfanswm - £166.54
Costau teithio - £89.18
R.W. Maskell – Inc a cael gwared a hen dogfennau preifat y cyngor - £72.13
Yswiriant y Cyngor (Clear Councils) - £271.42
HMRC - £20.80

Terfynwyd y Cyfarfod am 9.00yh. Cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Iau, 4ydd o Orffennaf am 7.30yh yn Neuadd Talog.